

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Practis Deintyddol Cei Connah Cyf
Dyddiad y gweithgarwch: 8 Tachwedd
2021

Dyddiad cyhoeddi: 17 Rhagfyr 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Practis Deintyddol Cei Connah Cyf fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig triniaeth i gleifion y GIG a chleifion preifat. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaeth deintyddol sy'n cael ei gynnig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae perchnogion newydd gan y practis ers mis Medi 2021.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol, Mayhar Mahmodian Asl, a rheolwr cynorthwyol y practis, Debbie Lee, ar 8 Tachwedd 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddarau polisiâu a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Er mwyn diogelu staff a chleifion, dywedodd rheolwr cynorthwyol y practis wrthym fod y drws blaen ar glo ar bob adeg er mwyn atal aelodau'r cyhoedd rhag dod i mewn i'r practis heb oruchwyliaeth a heb apwyntiad. Cawsom wybod bod hysbysiadau ac arwyddion priodol yn cael eu harddangos.

Roedd gleifion yr oedd angen iddynt weld y deintydd yn derbyn gwahoddiad i ddod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod staff sy'n gadael cleifion i mewn i'r adeilad yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, a bod cleifion sy'n gorfod derbyn triniaeth yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19. Mae angen i'r cleifion gael prawf tymheredd gan y staff a defnyddio hylif diheintio dwylo cyn mynd i mewn i'r practis. Gofynnwyd i gleifion a oedd yn mynychu'r practis i ddod â chyn lleied o eiddo personol gan fod y rhain yn cael eu cadw yn ardal y dderbynfa er mwyn lleihau'r risg o heintiau.

Dywedwyd wrthym fod sgriniau plastig clir wedi'u gosod ar ddesg y dderbynfa er mwyn diogelu staff. Gwaredwyd â theganau a chylchgronau o'r ardal aros. Dywedodd rheolwr cynorthwyol y practis wrthym fod y cleifion yn cael eu hebrwng drwy'r practis a bod yr holl ardaloedd, gan gynnwys y canllawiau, yn cael eu glanhau cyn ac ar ôl i'r cleifion eu defnyddio i gael mynediad at y grisiau.

Dywedodd rheolwr cynorthwyol y practis wrthym fod dogfennau'n cael eu diweddarau i sicrhau eu bod ar gael yn y Gymraeg ond bod y staff hefyd yn defnyddio LanguageLine os oes angen i siarad â chleifion nad yw'n siarad Saesneg neu sy'n well ganddynt siarad Cymraeg.

Roedd rheolwr cynorthwyol y practis yn canmol staff y practis yn fawr, gan dynnu sylw at y ffordd y maent wedi ymateb i ofynion y practis a'r cleifion ac wrth gefnogi ei gilydd yn ystod

y pandemig COVID-19.

Mae'r practis yn aros am ganlyniadau archwiliadau ar hyn o bryd. Cafodd y rhain eu cynnal gan gwmni allanol ac maent yn cynnwys archwilio sampl o ddŵr ar gyfer *Legionella* a *Pseudomonas*, cynnal asesiad risg tân, a chynnal archwiliad iechyd a diogelwch ac archwiliad mynediad i bobl anabl. Dywedodd rheolwr cynorthwyol y practis wrthym y caiff unrhyw argymhellion o'r archwiliadau hyn eu gweithredu cyn gynted â phosibl.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi COVID-19
- Polisi glanhau a chynnal a chadw amgylcheddol
- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05¹
- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r peiriannau awtoclaf
- Polisi glanhau â llaw

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd rheolwr cynorthwyol y practis fod gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau diweddaraf ar gyfer y rheolaeth ddeintyddol o gleifion yng Nghymru yn ystod y cyfnod adfer ar ôl y pandemig COVID-19.² Bwriedir defnyddio'r canllawiau yn yr holl leoliadau gofal deintyddol cyffredinol yng Nghymru.

Cadarnhaodd rheolwr cynorthwyol y practis fod yr holl staff wedi derbyn diweddariadau COVID-19 rheolaidd drwy grŵp WhatsApp³ dynodedig a chyfarfodydd tîm rheolaidd. Trafodir unrhyw ganllawiau a gweithdrefnau newydd yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y tîm, sy'n cael eu cofnodi. Mae cyfathrebu rheolaidd wedi sicrhau bod gan bawb gyngor ac arweiniad cyfredol ar COVID-19.

¹ Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad cydymffurfedd â dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

² [2021-09-28 - Dental management of patients in Wales during C-19 pandemic recovery.pdf](#)

³ Cymhwysiad traws-blattform anfon negeseuon ar unwaith yw WhatsApp Messenger sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar iPhone, BlackBerry, Android, Windows Phone a Nokia i gyfnwid negeseuon testun, delweddau, fideos a chlywedol am ddim. Yn ogystal â negeseuon sylfaenol, mae WhatsApp yn darparu opsiynau sgwrsio mewn grŵp a rhannu lleoliadau.

Cadarnhaodd rheolwr cynorthwyol y practis fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant neu arweiniad mewnol ar bynciau amrywiol megis cydnabod symptomau COVID-19, rheoli cleifion gyda symptomau COVID-19, a'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg cyfarpar a chael gwared â chyfarpar ar ôl ei ddefnyddio yn ddiogel.

Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol hefyd fod yr holl staff sy'n defnyddio masgiau FFP3⁴ wedi derbyn prawf ffit i sicrhau bod y masg yn ffitio'n gywir ac y bydd yn cynnig amddiffyniad digonol.

Cadarnhaodd rheolwr cynorthwyol y practis fod yr holl staff wedi derbyn asesiad risg COVID-19 manwl⁵ i asesu'r risgiau personol ynghlwm wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig COVID-19.

Cawsom wybod bod y defnydd o gyfarpar diogelu personol wedi cael ei optimeiddio gyda digonedd o stoc yn cael ei chyrru a'i monitro'n wythnosol gan aelod o'r tîm nyrsio deintyddol sy'n cysylltu'n uniongyrchol â rheolwr cynorthwyol y practis i sicrhau bod digon o stoc yn cael ei chyrru.

Cadarnhaodd rheolwr cynorthwyol y practis fod prosesau ar waith i ddiogelu cleifion a staff yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau.⁶ Roedd y broses hon yn dilyn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Hysbyswyd yr holl staff ynghylch ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol. Gwneid hyn drwy ddefnyddio cymhwysiad cydymffurfio a osodwyd ar ffonau symudol y staff, a dogfennau a argraffwyd yn ystod dau ddiwrnod hyfforddi staff penodol. Dywedodd rheolwr cynorthwyol y practis wrthym hefyd fod unedau hidlo aer a phurwyr aer symudol neu sefydlog wedi'u gosod yn yr ystafelloedd triniaeth, a oedd yn galluogi'r practis i weithredu gyda'r cyfnod segur lleiaf⁷ o ddeg munud yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau.

Gwnaethom gadarnhau'r broses o wirio nad oedd cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn dangos symptomau COVID-19 gyda rheolwr cynorthwyol y practis. Yn ogystal â derbyn galwad ffôn cyn eu hapwyntiad a chael gofyn cyfres o gwestiynau sgrinio, byddai'r cleifion yn cael eu hailsgrinio a chael prawf tymheredd wrth gyrraedd y practis. Pe bai claf yn cyrraedd y practis yn dangos symptomau COVID-19, cadarnhaodd rheolwr cynorthwyol y practis y byddai'r staff yn gofyn i'r claf aildrefnu ei apwyntiad ac y byddent yn darparu cyngor os oedd y claf mewn poen.

⁴ Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y gwisgwr rhag anadlu gronynnau bach yn yr aer a allai gynnwys feirysau.

⁵ Mae'r Offeryn Asesu Risg wedi cael ei ddatblygu i helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG a maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â'r feirws COVID-19.

⁶ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnyddio.

⁷ Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau sy'n caniatáu i unrhyw ddefnydd setlo cyn i'r broses lanhau a dihalogi gael ei chynnal.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, darparodd y practis deintyddol yr archwiliad diweddaraf oedd wedi'i gynnal ganddo yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05⁸ i AGIC. Roedd hwn wedi cael ei gwblhau'n rhannol gan y cyn-berchennog ac roedd heb ddyddiad a chyda pheth gwybodaeth ar goll o'r ffurflen. Roedd yr archwiliad wedi tynnu sylw at y materion canlynol:

- Protocol neu bolisi mewn perthynas â dod i gysylltiad â feirws a gludir yn y gwaed
- Dulliau prosesu ar gyfer cyfarpar/offer na ellir eu dihalogi i'r safonau priodol
- Y defnydd o agorellau neu ffeiliau endodontig
- Gorchuddion tafladwy a ddefnyddir unwaith yn cael eu taflu i ffwrdd ar ôl pob cyswllt â chleifion
- Cofnodi anafiadau a berir gan offer miniog mewn llyfr cofnodi
- Sinc ar wahân ym mhob ystafell ar gyfer golli dwylo lle mae'r broses ddihalogi yn cael ei chynnal
- Staff yn peidio â defnyddio menig domestig cryf ar gyfer glanhau â llaw
- Awyru mecanyddol
- Awyru mewn perthynas â mygdarth, gan gynnwys cemegion a ddefnyddir i ddihalogi
- Rhaglen cynnal a chadw i sicrhau bod y glanhäwr uwchsonig yn cael ei wasanaethu yn unol ag amserlen y gwneuthurwr
- Trefniadau contractiol i sicrhau bod yr holl olchwyr dihalogi awtomataidd yn cael eu cynnal yn gywir ac yn rheolaidd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- Ffedogau tafladwy yn cael eu defnyddio yn ystod prosesau dihalogi neu weithdrefnau clinigol lle mae risg y gallai'r wisg gael ei halogi
- Masgiau nad ydynt yn cael eu gwaredu gyda gwastraff clinigol ar ôl pob defnydd
- Ffedogau untro nad ydynt yn cael eu gwaredu gyda'r gwastraff clinigol
- Dillad a wisgir gan staff yn y ddeintyddfa yn peidio â chael eu newid ar ddiwedd y dydd neu pan fyddant wedi cael eu halogi'n amlwg
- Nid yw ffedogau plastig, goglau, masgiau nac amddiffynwyr wyneb yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw weithdrefnau clinigol a dihalogi lle mae perygl o dasgiadau neu greu aerosolau
- Nid oes unrhyw dapiau a reolir gan thermostat yn cael eu defnyddio
- Nid yw offer yn cael eu rhoi yn y golchwyr dihalogi yn gywir ac nid oes gwiriad dyddiol ar waith i gymharu a monitro newidynnau cylch gweithredu safonol

Yn ystod y gwiriad ansawdd, dywedodd rheolwr cynorthwyol y practis wrthym fod newidiadau wedi cael eu gweithredu yn naturiol yn ystod y pandemig COVID-19 a bod y rhain wedi datrys rhai o'r materion a ganfuwyd yn flaenorol yn archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Serch hynny, o ystyried cyflwr anghyflawn yr archwiliad blaenorol a'r nifer

⁸ Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cyfeirio at y canllawiau sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau atal a rheoli heintiau o fewn practisau deintyddol.

sylweddol o faterion a nodwyd, rhaid i'r practis gynnal ail archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a, lle nodir diffygion, paratoi cynllun gweithredu sy'n nodi camau unioni i gyflawni cydymffurfedd llawn â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, nodwyd bod y practis yn cofnodi glanhau'r cylchoedd awtoclaf ar bapur, ynghyd ag argraffiadau o'r system awtoclaf. Mae'r cofnodion hyn yn cael eu storio mewn cabinet ffeiliau. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod problemau niferus gyda'r argraffydd a bod hyn yn arwain at argraffiadau aneglur o dro i dro. Rhaid i'r practis sicrhau bod y cofnodion yn glir ac yn cael eu cadw'n ddiogel.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o ddiben
- Taflen wybodaeth i gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Polisi COVID-19
- Cynllun parhad busnes
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol i'r holl staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd rheolwr cynorthwyol y practis wrthym fod y practis wedi aros ar agor trwy gydol y pandemig COVID-19, gan gynnig cyngor a thriniaethau ar frys yn unol â chanllawiau COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y practis hefyd wedi darparu cefnogaeth i bractisau lleol yn ôl y gofyn ac wedi gweithio'n galed i ddarparu gofal deintyddol er gwaethaf yr heriau a wynebwyd o ganlyniad i'r pandemig.

Roedd rheolwr cynorthwyol y practis yn canmol y staff yn fawr, gan ddweud eu bod wedi addasu'n dda i ganllawiau COVID-19 newydd a'u bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Roedd y practis yn defnyddio cymhwysiad negeseua grŵp am gymorth ac er mwyn i'r staff allu cadw mewn cysylltiad. Gwnaeth rheolwr cynorthwyol y practis ein hysbysu ei fod bob amser ar gael i staff fynd ato pe byddent yn teimlo bod angen help neu gyngor arnynt.

Gwnaethom ofyn i reolwr cynorthwyol y practis i ddisgrifio'r prosesau a gweithdrefnau a oedd yn sicrhau bod cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng ar gael ac o fewn eu dyddiad. Cawsom wybod bod y cyffuriau ar gyfer argyfyngau yn cael eu gwirio'n wythnosol. Cedwir y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng mewn cwpwrdd sy'n hawdd mynd ato ar lawr daear y ddeintyddfa ynghyd ag offer argyfwng eraill megis y diffibriliwr, eli llygad a phe cyn cymorth cyntaf.

Rhodddwyd tystiolaeth i ni a oedd yn cadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac er mwyn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Cawsom sampl o bolisiau a gweithdrefnau'r practis. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar wrth i'r practis dderbyn perchnogion newydd.

Gwelsom fod y practis wedi adolygu ei gynllun parhad busnes yn ddiweddar i sicrhau dilyniant darpariaeth y gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig.

O'r dogfennau allweddol a adolygwyd gennym, roedd hi'n amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cawsom gopiâu o archwiliadau perthnasol a oedd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar, megis croes-heintio, nodiadau clinigol a phelydrau-X. Roedd yr holl archwiliadau wedi cael eu cwblhau a, lle y bo angen, roedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i gynnal.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, dywedodd rheolwr cynorthwyol y practis wrthym fod pob aelod o staff wedi derbyn gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod yn sefydlu gwasanaeth gwirio rheolaidd ar gyfer hyn.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, gofynnodd AGIC i gael tystiolaeth o archwiliadau rheolaidd a'r trefniadau llywodraethu clinigol parhaus ar gyfer y practis deintyddol. Yn ystod y galwad gwirio ansawdd, ac mewn cyfuniad â'r dystiolaeth a ddarparwyd, canfu AGIC fod yr archwiliad cardiau cofnod wedi tynnu sylw at broblemau sylweddol yn y safon o gadw cofnodion. Dywed safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol fod yn rhaid cymryd camau gweithredu ar unwaith os yw unigolyn cofrestredig yn teimlo y gall perfformiad proffesiynol roi cleifion mewn perygl.

Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrth AGIC ei fod yn bwriadu ailarchwilio'r cofnodion gofal deintyddol bob mis nes eu bod yn bodloni'r safon sy'n ofynnol. Ar ôl pob archwiliad, bydd y canlyniadau'n cael eu trafod mewn trafodaethau un i un unigol ac adroddir unrhyw themâu

mewn cyfarfodydd tîm. Unwaith y bydd y cofnodion yn cyrraedd safon foddhaol, bydd yr unigolyn cyfrifol yn archwilio'r cofnodion gofal deintyddol bob chwe mis.

Yn ogystal â hyn, wrth gael ei holi am y trefniadau sydd ar waith i gasglu barn y cleifion, hysbysodd yr unigolyn cyfrifol AGIC nad oedd wedi gwneud hynny ers cymryd perchnogaeth o'r practis ym mis Medi 2021. Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn defnyddio ffyrdd electronig i gasglu barn cleifion ond roedd cleifion yn cael eu gwahodd i roi adborth mewn blwch sylwadau cleifion yn y dderbynfa.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud y canlynol:

- Cwblhau archwiliadau clinigol yn rheolaidd a gweithredu ar y canfyddiadau mewn da bryd fel rhan o raglen llywodraethu clinigol barhaus
- Casglu barn cleifion ynghylch y practis a sicrhau bod proses effeithiol ar waith ar gyfer casglu'r adborth hwn

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Cei
Connah

Dyddiad y gweithgarwch: 8
Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ailgynnal archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 er mwyn nodi unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio posibl.</p> <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 sydd wedi'i ddiweddarau i AGIC ynghyd â chopi o'r cynllun</p>	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05			

	gweithredu canlyniadol o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn.				
2	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y clinigwyr yn cwblhau holl gofnodion gofal deintyddol y cleifion yn llawn ac yn gywir ac ar yr un pryd â'r driniaeth.	Rheoliad 20(1)(a)(i)(ii) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017			
3	Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Cwblhau archwiliadau clinigol yn rheolaidd a gweithredu ar y canfyddiadau mewn da bryd fel rhan o raglen llywodraethu clinigol barhaus Casglu barn cleifion ynghylch y practis a sicrhau bod proses effeithiol ar waith ar gyfer casglu'r adborth hwn 	Rheoliad 8(n) a Rheoliad 16 (2)(d)(ii) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 16(2)(c) a (d) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad:

